

Cyfarwyddiadau Cyfarfod Teams gyda Chyfieithu ar y Pryd

Instructions for Teams Meetings with Simultaneous Translation



CANOLFAN BEDWYR

Cyfarfod dwyieithog fydd hwn yn defnyddio nodwedd chyfieithu ar y pryd o fewn Teams.

This will be a bilingual meeting using the interpretation feature within Teams.

Cyfarwyddiadau i drefnwyr cyfarfodydd

1. Ar ôl cael cadarnhad bod cyfieithwyr ar y pryd ar gael i'ch cyfarfod, dylech anfon gwahoddiad i'r cyfarfod i translation@bangor.ac.uk
2. Yna, o dan y tab "meeting options" dylech roi tic yn y blwch "Enable interpretation". Peidiwch â nodi enw cyfieithydd eto
3. Bydd y Tîm Cyfieithu yn cysylltu â chi i roi gwybod pwy fydd yn cyfieithu yn y cyfarfod, ar ôl cael y wybodaeth honno, dylech anfon gwahoddiad at y ddau gyfieithydd dan sylw.
4. Ar ôl i'r ddau gyfieithydd dderbyn y gwahoddiad, dylech nodi eu henwau yn y blwch "interpreters" (y ddau yn yr un blwch) ac yna, dewiswch "Welsh" fel "source language" ac English fel "target language".


Instructions for meeting organizers

1. Once you have received confirmation that translators are available for your meeting, please send a meeting invitation to translation@bangor.ac.uk
2. Then, under the "meeting options" tab, tick the "Enable interpretation" box. Do not put a translator's name in the box yet
3. The Translation Team will contact you to let you know who will be translating at your meeting. Once you have been given that information, you should send an invitation to the named translators.
4. Once the translators have accepted the meeting invitation, you should write their names in the "interpreters" box (both in the same box) and then, select "Welsh" as the "source language" and English as the "target language".

Cyfarwyddiadau i bobl fydd yn ymuno â'r cyfarfod

I ymuno â'r cyfarfod, pwyswch ar y cyfarfod yn eich calendr Outlook. Dylech wneud hyn 5 munud cyn amser dechrau'r cyfarfod.

Pan fyddwch yn ymuno â'r cyfarfod bydd y neges hon yn ymddangos yn gyflym:




dylai Siaradwyr Cymraeg ddewis "original language". Gallwch hefyd glicio ar "...more" ar frig y sgrin, ac yna ar "Language Interpretation" ac yna dewis "original language".

Instructions for those attending the meeting

To join the meeting, click on the meeting in your Outlook calendar. Do this 5 minutes before the meeting is due to start.

When you join the meeting, this message will appear for a few seconds:



non-Welsh speakers should select "English". You can also click on "...more" at the top of the screen, then on "Language Interpretation" and then choose "English".

Dylai **pobl ddi-Gymraeg** ddilyn y canllawiau Saesneg.

Unwaith y bydd pawb wedi gwneud hyn:

1. Dylai siaradwyr Cymraeg fedru clywed ei gilydd a chlywed cyfraniadau gan bobl ddi-Gymraeg. Ni allant glywed y cyfieithydd.
2. Dylai pobl ddi-Gymraeg fedru clywed ei gilydd a chlywed y cyfieithydd ar y pryd pan fo'n cyfieithu. Os bydd siaradwr Cymraeg yn cyfrannu yn Saesneg, ni fydd y cyfieithydd yn cyfieithu, a bydd pobl ddi-Gymraeg yn gallu clywed y cyfraniad gwreiddiol. Os ydych am droi o'r Gymraeg i'r Saesneg, **cofiwch ddisgwyl eiliad neu ddwy** cyn dechrau siarad er mwyn i'r sianeli sain gael unioni, fel arall, ni fydd y rhai di-Gymraeg yn gallu clywed dechrau eich brawddeg.
3. Dylai'r cyfieithydd ar y pryd glywed pawb, heblaw am y cyfieithydd arall

Yr arfer gorau yw i bawb gadw eu microffonau ar 'mute' yn ystod y cyfarfod oni bai eu bod yn dymuno cyfrannu at y drafodaeth.

Sylwer hefyd y bydd dau gyfieithydd ar y pryd yn bresennol yn y cyfarfod ac y byddant o bryd i'w gilydd yn cyfnewid â'i gilydd.

Os oes unrhyw broblem gyda'r nodwedd cyfieithu ar y pryd yn ystod y cyfarfod rhowch wybod yn uniongyrchol i'r cadeirydd.

Welsh-speakers should follow the Welsh language instructions.

Once everyone has done this:

1. Welsh-speakers should be able to hear each other and hear contributions from non-Welsh-speakers. They cannot hear the translator.
2. Non-Welsh-speakers should be able to hear each other and the simultaneous translator when they are translating. If Welsh-speakers contribute in English, the simultaneous translator will not be translating, and non-Welsh-speakers will be able to hear the original contribution.
3. The simultaneous translator should be able to hear everyone, except for the other translator.

Best practice is that all attendees keep their microphones muted during the meeting unless they wish to contribute to the discussion.

Note as well that two simultaneous translators will be present in the meeting and that they will change over every so often.

If there is any problem with the simultaneous translation feature during the meeting please make this known directly to the chair of the meeting.